 Er nad yw'r ewyllys honno yn enwi Samuel na Cynfal, rhaid bod dymuniad y tad, Morgan Llwyd, yn ei ewyllys ef ugain mlynedd ynghynt, nawr yn cael ei barchu [*gw. 1683 isod*]. Ewyllys Dafydd Llwyd yn gwneud darpariaeth hefyd ar gyfer ei frodyr Caleb a Joshua a'i chworydd Ann ac Elizabeth.
- 1679 '*... Lloyd de Cynfel sepulta fuit decimi sepyimo die Septembris 1679*' (Ar fedd ym mynwent Maentwrog Mae'r enw cyntaf yn annealladwy.) (*Bob Owen, Croesor - Erthygl yn Y Cymro 11/10/1956*)
- 1680 Marw Mari Llwyd, mam Morgan Llwyd, a'i chladdu ym mynwent Maentwrog. Ar y garreg fedd - '*Maria Lloyd de Cynfel sepulta fait vicessimo quinto die Junii 1680*'
 (*Bob Owen, Croesor - fel yr uchod*)
- 1683 Yn dilyn marw Dafydd yn ddi-briod yn 1678, llunio *gweithred trawsgwydd [deed of exchange]* yn cadarnhau perchnogaeth Cynfal i'w frawd Samuel ac yn trosglwyddo cyfrannau o'i eiddo i'w frodyr eraill a'i chworydd - Caleb, Joshua, Anne ac Elizabeth.
- 1707 Samuel yn priodi Mary Adams ar ôl tyngu amod y byddai'n gadael ei eiddo iddi hi ac i'w blentyn/blant. (*ELE*)
- 1718 Chwefror 27ain - Samuel Lloyd yn gwneud ei ewyllys ac yn gadael ei holl eiddo i'w ferch Mary Lloyd (Mary Hills yn ddiweddarach) ac yn enwi hefyd ei wraig Mary Lloyd (née Adams). Mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer ei fam yn ogystal.
 [*Daeth yr ewyllys i rym ar 21/11/1721, ddwy flynedd a naw mis yn ddiweddarach, sy'n taflu cwestiwn ar y dyddiad 1718 a geir i farwolaeth Samuel Lloyd gan J. H. Davies yn ei gyfrol 'Gweithiau Morgan Llwyd'*]
- 1720 Evan Nanney a'i fam Elizabeth Evans o Ffestiniog yn denantiaid Cynfal (am 11 mlynedd ar rent o £24 y fl.). Enwau gweddw a merch Samuel sydd ar y brydles
 (*ELE*)
- 1721 21ain Tachwedd - Profi ewyllys Samuel Lloyd ('of London, Grocer'. *Mewn lleoliad arall ceir cyfeiriad ato hefyd fel 'apothecary'*). Gadael ei holl eiddo i'w ferch Mary Lloyd Hills (priod John Hills, Surgeon) ond er nad yw Cynfal yn cael ei enwi yma chwaith, mae'n ymddangos bod yr ystâd wedi aros yn enw'r teulu am flynyddoedd lawer ar ôl hynny.
 (*ELE*)
- 1732 *Edmwnd Lloyd, Cefnfaes, Maentwrog yn cymryd prydles 21 mlynedd ar Cynfal ar rent o £28 y fl. Enwau gweddw a merch Samuel sydd ar y brydles hon hefyd. (ELE)*
- 1741 Marw Mary (Adams), gwraig Samuel. (*ELE*)
- 1743 *Lewis Edwards, Talgarth, yw'r deiliad (h.y. dal y freehold) ar Cynfal Fawr***
 (*MQSR Vol.1 P. 22*)
- 1744 Geni Mary Elizabeth Hills, wyres Samuel a gor-wyres Morgan Llwyd.
- 1744 Marw Mary Lloyd Hills, merch Samuel [*ar enedigaeth Mary Elizabeth, efallai?*]
- c. 1773 Mary Elizabeth Hills, unig wyres Samuel Lloyd a Mary Adams, yn priodi Joseph Bushnan ac yn cael dau fab - Joseph a Christopher
- 1752 Cynfal yn cael ei osod am 11 mlynedd i'r Parch G. David Morris (1729 - 82), Rheithor Ffestiniog a'r cytundeb yn cael ei adnewyddu tan 1766 ac wedyn tan 1772. Enwau Mary Elizabeth Hills a'i thad (John Hills (Surgeon) ar y brydles (*ELE*) (*MQSR Vol.1 P.307*)
- 1792 Joseph Bushman, gŵr Mary Elizabeth Hills, yn rhentu Cynfal i'r Parch. John Gruffydd, Rheithor Ffestiniog (192 erw am £50 y fl.) ac ar yr amodau canlynol -

- (i) Rhoddi cynnyrch y tir yn ôl ar achles (h.y gwrteithio)
- (ii) Bod hawl gan y meistr i fwrw golwg dros y lle
- (iii) Tri mis o rybudd ynglŷn ag adnewyddu'r denantiaeth
- (iv) Rhaid gwarchod y coedydd (ELE)

- 1797 *Marw Joseph Bushnan* (GMLI)
 1798 Y meibion, Christopher a Joseph Bushnan, ynghŷd â'u mam, yn etifeddu Cynfal
(ELE)
 1808 *(Tachwedd) Y meibion Joseph a Christopher Bushnan yn gwerthu stad Cynfal i Thomas a William Casson, Blaen-y-ddôl, am £2,950. Disgrifir y lle 'megis plas yng Nghynfal Fawr, y ffordd dyrpeg gerllaw, y lôn bost rhwng Amwythig a Chaergybi o fewn hanner milltir, a llythyrau'n myned heibio deirgwaith yr wythnos.'* Dywedir hefyd y gellid ennill tipyn o arian trwy gludo'r llechi o'r chwareli cyfagos i'r ceiau [ar y Ddwyryd] (ELE)

Felly, yn 1808, ac ar ôl o leiaf dair canrif a chwarter, aeth Cynfal allan o ddwylo teulu'r Llwydiaid

- 1828 Marw Mary Elizabeth Bushnan (née Hills) (ELE)
 1839 Marw Thomas a William Casson a'r ystâd yn cael ei hetifeddu gan William Casson, Lerpwl, ail fab Thomas Casson.
 1849 William Jones, tafarnwr o'r Bala, yn rhoi £2,000 ar lôg o £5 y cant ar y stad. Cyfeiriad at Margaret Evans, Robert Owen ac Edward Prys yn denantiaid yno. (ELE)
 1850 *Arddangosfa Dolgellau – 'ffon-gleddyf Huw Llwyd'* (HPFfb33)
 1851 Cyfrifiad 1851 yn dangos bod Robert Owen (48 oed) a'i deulu yn dal i rentu Cynfal ond yn denantiaid ychwanegol ceir enwi David Williams (35 oed) a'i briod a William Jones (72 oed) a'i wraig yntau.
 Yn yr un flwyddyn, George Casson, Plas Blaenddôl, Ffestiniog, yn diogelu'r stâd ar fenthyciad o £3,000 ac yntau wedyn, yn 1861, yn rhoi'r lle ar warant i'r *North & South Wales Bank*.
 1870 Ar farwolaeth George Casson, mae Cynfal yn cael ei adfer i William Casson, (Lerpwl gynt ond sydd nawr yn byw ym Mhlas Penrhyn) a chaiff pob dyled ar y stâd ei chlririo.
(ELE)
 Yn yr un flwyddyn, y stad yn cael ei rhoi eto ar warant o £2,000 i T. B. Addison a John Curtis Hayward ac yn 1875 yn mynd yn eiddo i'w hetifeddion.
 1877 Marw William Casson. William Galley Casson, Pwllheli, a Thomas Casson, Dinbych, yn etifeddu'r stâd ac yn gwerthu'r holl eiddo i William Davies, Cae'rblaid, Ffestiniog, am £52,250
 Pierce Jones yn ffermio'r Garth ar y pryd a Griffith Davies yn dal tenantiaeth y ddau Gynfal, y bach a'r mawr (gw. Cyfrifiad 1871). [ELE]
 1888 John Robertson ac eraill yn cloddio am aur ar dir Cynfal. Caed rhywfaint o lwyddiant ond byr a chostus fu'r fenter.
 1897 **29ain Medi - Pierce Jones yn prynu'r Garth a Chynfal Fawr** [ELE]
 1922 Marw Pierce Jones Ionawr 22ain a Catherine ei wraig yn etifeddu Cynfal (gweithredu'r ewylllys 26/06/1922)
 1938 Mai 12fed – marw Catherine Jones.
5 Medi – Pierce Jones y mab (h.y. Pierce Jones yr iengaf) yn etifeddu Cynfal, a fferm y Garth yn mynd i'w chwirydd Gwen a Martha. [Copi o'r ewylllys, trwy garedigrwydd Mai Puw Jones, Garth]
 1949 Dadorchuddio'r garreg ar wal Cynfal i gofnodi man geni Morgan Llwyd
 1965 Tachwedd 1af – David Morris Jones a Bessie May Littler ('joint tenants') yn prynu Cynfal gan Pierce Jones. Y tir uwchlaw'r rheilffordd yn mynd yn rhan o diroedd y Garth ac yn eiddo felly i Peter Jones, mab Pierce Jones (yr iengaf).
 1989 *Lis Dawson, Fferm Pengwern, yn etifeddu Cynfal Fawr yn ewylllys Mrs Littler. (Tytiolaeth e-bost oddi wrth Lis Dawson ei hun)*
 1996 Gwilym Ephraim, Tyddyn Merched, yn prynu Cynfal Fawr
 2012 Cynfal yn dal yn eiddo i'r Gwilym Ephraim uchod.

7. *Arysgrifau (Inscriptions)*

Yn ddiweddar, fe dynnwyd fy sylw at yr arysgrifen hon ar wal allanol hen ffermdy Cynfal Bach yng Nghwm Cynfal :-

IOSHVA LLOYD

1661

Rywbyrd yn ystod hanner cyntaf y ganrif ddiwethaf, fe gododd perchennog Cynfal Bach (pwy bynnag oedd hwnnw ar y pryd) estyniad yn erbyn wal ei dŷ, i'w ddefnyddio fel llaethdy bychan. Yn y broses, fe guddiwyd rhan o enw oedd wedi cael ei gerfio ar un o gerrig yr adeilad gwreiddiol. Trwy berswâd David Emrys Roberts o'r Blaenau, fe aeth Colin Fairhurst, perchennog presennol Cynfal Bach, ati gyda chŷn a morthwyl i geisio datgelu mwy o fanylion yr arysgrif, a'r hyn a ddaeth i'r golwg oedd **IOSHVA LLOYD**, a gair arall i ddilyn na ellir ei weld yn llawn ond sy'n dechrau, o bosib, gyda'r llythrennau **LLAN**. Odditano mae'r dyddiad **1661**. (Mae enw rhyw 'John Elis' hefyd i'w weld ar yr un garreg ond, gan nad oes unrhyw ddyddiad gyferbyn â hwnnw, yna go brin y gellir olrhain dim o'i hanes ef.)



Joshua Lloyd 1661

Ond pwy oedd y **IOSHVA LLOYD** a fu wrthi mor brysur, dri chan mlynedd a hanner yn ôl, yn cerfio i enw mor uchel i fyny ar wal y tŷ? Mae'r cliw i'w gael yn y dyddiad, rwy'n tybio, yn ogystal ag mewn cerfiad arall y gwyddwn amdano eisoes ar wal Cynfal Fawr. Am gadarnhad, fodd bynnag, rhaid yw troi at gart achau teulu'r Llwydiaid, sef deiliaid tiroedd Cynfal dros o leiaf bum cenhedlaeth, ac yn fwy penodol at ddisgynyddion Morgan Llwyd. Yn y cyfnod hwnnw, roedd stâd Cynfal Fawr yn berchen ar saith o dyddynnod, gyda Chynfal Bach yn un ohonynt.

Yn ôl yr achau, roedd gan Morgan Llwyd a'i wraig Anne saith o blant – pedwar mab a thair merch. Enwau'r meibion oedd David, Samuel, Caleb ... a Joshua. Gan mai yn 1641 y priodwyd y rhieni, yna rhaid mai llanc yn ei ardddegau oedd y Ioshva Lloyd a fu wrthi, yn 1661, yn cerfio 'i enw ar wal allanol Cynfal Bach.

Pan fu Morgan Llwyd farw yn 1659, yn ddeugain oed, gadawodd ewyllys. Yn ôl yr ewyllys honno, (*?ac yn unol â'r hen drefn Gymreig?*), y mab hynaf oedd i etifeddu'r stâd, yn ogystal â phopeth o bwys ynglŷn â hi – *'To my ffirst begotten Sonne David Lloyd, I leave all my Landes and hereditaments called Kynvell in Maentwrog (h.y. plwyf Maentwrog) in the Countie of Merioneth with my howses there, and the appurtenances thereof, As also my bookes and Papers ...'* Un o'r 'howses' hynny oedd Cynfal Bach. Felly, yn 1661, ddwy flynedd ar ôl marw ei dad, mae'n ymddangos bod Joshua wedi mynd-ati i gerfio'i enw ar wal tŷ a oedd, erbyn hynny, yn eiddo i David, ei frawd hynaf. Flwyddyn ynghynt roedd ei frawd hŷn, Caleb, wedi gwneud yr un peth ar wal allanol y cartre yng Nghynfal Fawr.



Caleb Lloyd 1660

Fe â'r ewyllys ymlaen *'... To my second Sonne Samuell Lloyd, I bequeath my tenement in Treff Allen (Trefalun) in Denbighshire, lately called Sinedales Tenement ... To my third Sonne Caleb Lloyd, To my ffourth Sonne Joshua Lloyd and to my daughters ... I leave and bequeath (a small portion) in gold, silver, plate, household stuffe and Catell'* Pe byddai David farw'n ddi-etifedd, yna roedd tiroedd Cynfal i fynd wedyn i Samuel, a'r stâd yn Sir Ddinbych i gael ei throsglwyddo i Caleb, y trydydd mab.

Bu David Lloyd farw yn Llundain yn 1678, yn ddi-blant, ac er nad yw ei ewyllys yn cofnodi hynny, fe drosglwyddyd holl eiddo'r teulu yng Nghwm Cynfal i Samuel. Ond ddeugain mlynedd yn ddiweddarach, yn

1718, yn Llundain y bu yntau hefyd farw. (Mae ei ewyllys yn dweud mai 'grocer' oedd o erbyn hynny; 'apothecary' yn ôl rhyw ffynhonnell wahanol). Sut bynnag, bu disgynyddion y Llwydiaid yn dal tiroedd Cynfal Fawr am bron i ganrif arall, nes i John a Joseph Bushnan, gor-wyrion Samuel Lloyd, ei werthu i Thomas a William Casson yn 1808.

Ac eithrio'r cyfeiriadau prin ato yn ewyllysiau ei dad a'i frawd hynaf, yr unig wybodaeth sydd gennym am Joshua yw ei fod yn dal ar dir y byw yn 1683 ac yn trigo, erbyn hynny, yn Portsmouth. Ond diolch i'w ymdrechion flynyddoedd ynghynt, mae ei enw - Ioshva Lloyd 1661 – ar gof a chadw yng Nghwm Cynfal hyd heddiw. Geraint V.Jones

O.N. Mae'n ymddangos mai Morgan Llwyd oedd y cyntaf o'r teulu i fabwysiadu ffurf Seisnig y cyfenw. Caiff hyn ei weld nid yn unig yng nghenedlaeth ei blant ond hefyd yn ewyllys Morgan Llwyd ei hun. (Rhan o erthygl a ymddangosodd yn rhifyn 2010 o Rhamant Bro, sef cylchgrawn blynyddol Cymdeithas Hanes Blaenau Ffestiniog)

8. Sgwrs a recordiwyd gan Geraint V. Jones ar gyfer UTGORN CYMRU Rhifyn 52 Ionawr 2011

Huw Llwyd o Gynfal

Go brin bod cwm arall yng Nghymru gyfan efo mwy o ramant ac o hanes yn perthyn iddo fo na Chwm Cynfal, Llan Ffestiniog. Efo enwau fel Bryn Cyfergyd a Bryn Saeth, Bron Ronw a Llech Ronw does dim gwadu cysylltiad trwm y lle efo drama olaf un y Mabinogi ... a thynged y cymeriadau trasig hynny Blodeuwedd, Llew Llaw Gyffes a Gronw Pebr, Arglwydd Penllyn.

Ond nid am ei gysylltiadau chwedlonol yn unig y mae Cwm Cynfal yn enwog, wrth gwrs. Yn yr unfed a'r ail ganrif ar bymtheg, dyma lle'r oedd teulu'r Llwydiaid yn byw - 'teulu' meddai un cofiannydd, 'oedd â gwythien o athrylith yn rhedeg trwyddo' ac, yng ngeiria Bob Owen Croesor, teulu a oedd 'ymhlith teuluoedd urddasolaf a pharchusaf Gwynedd.'

Wel rŵan, mae'n siŵr mai Morgan Llwyd – neu Morgan Llwyd o Wynedd - y llenor a'r diwinydd, ac awdur y clasur 'Llyfr y Tri Aderyn', ydi'r enwocaf o'r teulu hwnnw, sef teulu Cynfal Fawr. Ac mae'i hanas o, wrth gwrs, wedi cael ei gofnodi mewn mwy nag un cyfrol a chan fwy nag un cofiannydd. Fo, Morgan Llwyd, gyda llaw, oedd yr olaf o'r teulu i gario'r cyfenw Cymraeg. Y ffurf Seisnig Lloyd roddwyd ar bob un o'i blant. Ond er i'r meibion i gyd fynd ar chwâl, i ddiweddu oes mewn llefydd fel Llundain a Clerkenwell a Portsmouth - eto i gyd fe arhosodd Cynfal Fawr yn nwylo'r teulu tan 1808, pryd y cafodd o ei werthu gan or-orwyrion Morgan Llwyd i deulu'r Cassons, a ddaeth i'r ardal i neud eu ffortiwn o'r chwareli llechi. A rhyw ddiwadd go fflat a dinod oedd hwnnw i deulu ac i blasty a fu, yn ystod y Dadeni Dysg, yn gartre'r beirdd ac yn grud i ddiwylliant Cymraeg yn ardal Stiniog a De Gwynedd am bedair os nad pum cenedlaeth.

Yn y flwyddyn 1588, rhyw ddeng mlynedd ar hugain cyn i Morgan Llwyd gael ei eni, fe alwodd yr achyddwr Lewys Dwnn yng Nghynfal Fawr er mwyn cofnodi achau'r Llwydiaid. Dafydd Llwyd ap Hywel ap Rhys oedd gŵr y tŷ bryd hynny ac roedd ganddo fo a'i wraig Catrin bump o blant – tri mab, sef Owen, Hywel a Huw, a dwy ferch, Elin a Gwen – ond mae'n debyg iddyn nhw golli rhagor, naill ai ar enedigaeth

neu'n ifanc iawn. Ac mae'n debyg i ddau o'r meibion hynny, sef Owen a Hywel, farw o flaen eu tad. Hynny ddim yn llawer o syndod, wrth gwrs, o feddwl bod Dafydd Llwyd, y tad, wedi byw i'r oedran teg o ddeg a phedwar ugain.

Yn ei gywydd marwnad i Dafydd Llwyd yn 1623, dyma sut mae Huw Machno yn cofnodi'r colledion hynny, ac mae *o'n* enwi dau fab ac un ferch yn ychwanegol at restr Lewis Dwnn –

Pump o feibion gyfion ged
am orchest, a thair merched.
Pedwar âi i wlad Baradwys
o flaen i tad, toriad twys.
Yr hyna'n aer a henwyd
i ddwyn lle oedd Owen Llwyd
a dau oedd feistriaid mewn dysg
o raddol art oreuddysg
a brawd o wŵr brau ydoedd
Howel, âi i nef, hael iawn oedd.
Y trydydd o freisgwydd frig
yw Huw Llwyd ddi-balledig
yn aer i dad yw ado
yn ôl fydd yn i le fo.

Hynny ydi, fe fu pedwar o'r meibion farw o flaen eu tad, gan adael yr ail fab, sef Huw Llwyd, i etifeddu Cynfal Fawr a'r tiroedd i gyd.

Fel ei dad, roedd Huw Llwyd, hefyd, yn fardd celfydd iawn yn y mesurau caeth a rhydd – y ddau yn cynrychioli dwy genhedlaeth o uchelwyr oedd yn canu '*ar eu bwyd eu hunain*'. Hynny ydi, yn wahanol i'r beirdd proffesiynol ... neu'r *beirdd-wrth-greffft* fel roedd rheini'n cael eu galw ... doedd y Llwydiaid ddim yn dibynnu am nawdd gan neb. Yn ôl traddodiad, roedd y beirdd proffesiynol yn ennill bywoliaeth trwy ganu mawl a marwnad i deuluoedd uchelwrol ond roedd gan y beirdd oedd yn '*canu ar eu bwyd eu hunain*', fel roedden nhw'n cael eu galw, y rhyddid i ganu ar ba destun bynnag roedden nhw'n ei ddymuno. Nid yn unig hynny, ond roedd ganddyn nhw hefyd, wrth gwrs, y modd i gynnig nawdd a lletygarwch i'r *beirdd-wrth-greffft*, megis Huw Machno a'i debyg.

Wel rŵan, os ydi Morgan Llwyd yn cael ei weld erbyn heddiw fel seren ddisgleiriaf teulu Cynfal Fawr, nid fo, serch hynny, oedd y mwyaf lliwgar ohonyn nhw. Does dim dwywaith nad Huw Llwyd - ei daid ... neu ei hen-ddewyrth falla, gan nad oes wbod be oedd yr union berthynas rhyngddyn nhw ... - oedd hwnnw.

Fe anwyd Huw Llwyd rywle o gwmpas 1568 – wyddon ni mo'r union ddyddiad, na chwaith union ddyddiad ei farw – ond mae 'na gryn dipyn o'i hanes ar gael inni hyd heddiw, yn ogystal â chryn dipyn hefyd o'i farddoniaeth. Fe wyddon ni iddo fo fod yn filwr ac yn fardd ond mae'n ymddangos bod gynno fo bob math o alluoedd eraill yn ogystal, gan gynnwys, yn ôl tystiolaeth gwerin gwlad, y gallu i gymuno efo'r Gŵr Drwg ei hun!

Yn ŵr ifanc fe aeth Huw Llwyd i grwydro'r Cyfandir efo byddin Syr Roger Williams, i ymladd yn erbyn y Sbaenwyr yn yr Iseldiroedd ... a'r profiad hwnnw, mwy na thebyg, sy'n rhoi'r cefndir i'w englyn mwya adnabyddus o -

Yn Ffrainc yr yfais yn ffraeth – win lliwgar

Yn Lloegr cawl odiaeth;

Yn Holland menyn helaeth;

Yng Nghymru, llymru a llaeth.

Ond fe fu'r profiad hwnnw ar faes y gad yn gyfle i feithrin amal i ddawn arall hefyd, siŵr o fod; doniau a ddaeth yn fwy amlwg wrth iddo fo fynd yn hŷn.

Sut bynnag, fel y deudodd Huw Machno yn ei gywydd marwnad i Dafydd Llwyd, Huw oedd yr unig fab oedd ar ôl i etifeddu Cynfal Fawr a'r holl diroedd oedd yn mynd efo'r lle hwnnw.

Un o'r petha cynta wnaeth o wedyn, ma'n debyg, oedd codi estyniad helaeth ar yr hen dŷ a throï'r lle yn dipyn o blasty yn ôl safonau'r oes honno. Fel'ma mae Huw Machno yn disgrifio'r gwaith, mewn cywydd diweddarach -

Trwsio, ffwrneisio a wnâi
o'i ddyfais, i dŷ yn ddifai,
a'i rannu yn gywreiniach,
a throï dŵr drwy barlwr bach

Hynny ydi, yn y dyddia di-rewgell hynny, doedd dim un tŷ gwerth sôn amdano nad oedd llif dŵr oer yn rhedeg trwy'i fwtri, i gadw'r tymheredd i lawr yno, fel bod y gwin a'r llefrith a'r menyn a phetha felly yn cael pob chwara teg.

Mae Huw Machno yn mynd ymlaen wedyn i sôn am amrywiol rinweddau Huw Llwyd ac yn rhoi darlun inni o gymeriad crwn y dyn. Mae'n cyfeirio, er enghraifft, at ei lyfrgell

'ei lyfrau ar silffau sydd
deg olwg, gida'i gilydd

ac wedyn at 'ei flychau eliau lân
a'i gêr feddyg o arian'

sy'n dystiolaeth o allu Huw Llwyd i feddyginiaethu. Roedd honno'n ddawn deuluol, falla, o gofio bod Owen, ei frawd hynaf, yn feddyg neu ffisegydd. A phwy sydd i ddeud na fu'n rhaid i Huw ei hun ymarfer y grefft ar sawl maes cyflafan yn Ewrop? A phe bai angen mwy o dystiolaeth o'i gymwysterau meddygol, mae un o lawysgrifau Hengwrt yn tystio bod Ellis Wyn o'r Lasynys, wrth ysgrifennu ei '*Lyfr o Hen Physigwriaeth*', wedi dibynnu'n helaeth iawn ar yr hyn a gaiff ei alw yn '*lyfr Huw Llwyd Cynfel*'. Erbyn heddiw, fodd bynnag, does wybod be ddigwyddodd i'r ffynhonnell hynafol honno, gwaetha'r modd.

Mae Huw Machno yn mynd ymlaen i ddisgrifio rhai o'r pethau eraill oedd i'w gweld yng Nghynfal Fawr, pan alwodd o heibio yno oddeutu'r flwyddyn mil chwech tri dim. Mae o'n rhestru cleddyf a tharian, bwa a saethau, offer pysgota a hela, a nifer o bethau eraill, ac mae'r cyfan yn rhoi darlun manwl inni o gymeriad diddorol Huw Llwyd -

a'i fwcled glân ar wanas,
a'i gledd pur o'r gloyw-dur glas,

a'i fwa yw, ni fu ei well,
a'i gu saethau, a'i gawell,
a'i wn hwylus yn hylaw,
a'i fflas, hawdd y'i caiff i'w law,
a'i ffon enwair ffein iown-wych,
a'i ffein gorn, a'i helffyn gwych,
a'i rwydau, pan fai'r adeg, (h.y. yn y tymor pysgota)
sy gae tynn i bysgod teg

Ac mae'r bardd yn mynd ymlaen i sôn hefyd am Huw Llwyd yn astudio'r sêr trwy sbienddrych ac yn chwarae gwyddbwyll ac yn gwrando ar fïwsig telyn. Cyfoeth, dewrder milwrol, dysg ac amlieithrwydd, awen farddol, dawn gwella clwyfau a darllen y sêr ... heb sôn am ddoniau mwy cyffredin megis hela a physgota. Hawdd credu felly bod galluoedd y gŵr o Gynfal Fawr yn ddi-hysbydd.

Ond fyddwn i ddim yn gneud cyfiawnder â Huw Llwyd heb mod i hefyd yn cyfeirio at ddawn arall oedd ganddo fo, un fwy anghyffredin o lawer, sef y gallu i greu swynion. Hynny ydi, os gellir rhoi coel ar gof gwerin gwlad!

Wel rŵan, falla bod gan y ddawn honedig honno rywbeth i'w neud â'r ffaith mai merch Hendre-mur - neu Mur Castell - oedd ei wraig o. Ac os y gadawodd Math a Gwydion eu hud ar y lle hwnnw, yna pwy sydd i ddeud nad etifeddodd gwraig ifanc Huw Llwyd yr un ddawn ddewiniol, ganrifoedd yn ddiweddarach, a throsglwyddo honno wedyn i'w gŵr.

Ia, chwerthwch os liciwch chi ond, yn nyddia Huw Llwyd, mi fyddai gwerin gwlad wedi bod yn barod iawn i gredu peth felly. Ac amal i beth arall hefyd! Wedi'r cyfan, oni wydden nhw i sicrwydd fod Huw yn dablo yn y gelfyddyd ddu? Onid oedd o'n cymuno efo'r Gŵr Drwg ei hun? Ac onid oedd hwnnw'n barod bob amsar i anfon llu o'i ellyllon i warchod ei fêt yng Nghynfal Fawr?

Mi fydd rhai ohonoch chi'n wfftio at y fath 'ofergoledd', ond roedd hen bobol ardal Stiniog yn gwbod be oedd be, ac am be roedd nhw'n sôn, a fydden nhw byth wedi credu rhyw storïa gwirion heb fod ganddyn nhw dystion! Gwas Huw Llwyd ei hun, er enghraifft! Onid oedd hwnnw, un hwyrnos, wedi dilyn ei fistar o dafarn ym Maentwrog a'i weld o'n dewis llwybyr yr afon yn ôl am adra yn hytrach na'r llwybyr troed arferol? Ei weld o'n neidio o garrag i garrag a'r dŵr coch yn byrlymu o'i gwmpas o! Penderfyniad hurt bost i neb ei neud ar noson o'r fath, o styried garwedd ceunant y Gynfal a'r llif mawr oedd yn yr afon. A phenderfyniad hurtiach fyth, wrth gwrs, i rywun oedd wedi cael peint neu ddau yn ei fol! Ond roedd Huw mewn dwylo diogel, yn ôl y gwas, oherwydd cyn cychwyn ar ei daith beryglus fe glywodd hwnnw ei fistar yn galw ar y 'du' a'r 'gwyn' – y drwg a'r da - i'w helpu y noson honno ac, er yn feddw, fe gyhaeddodd Huw Llwyd adra nid yn unig yn ddi-anaf ond â'i draed yn hollol sych hefyd. A rheswm da am hynny! Yn ôl tystiolaeth ei was ffyddlon (A pham ddylid ama gair hwnnw? Nac edliw iddo ynta fod wedi treulio'r min nos yn yr un tŷ potas â'i fistar!), fe anfonodd y Gŵr Drwg fflyd o'i ellyll i warchod ei gyfaill o Gynfal Fawr ac mi fu rheini wrthi fel lladd nadroedd yn symud meini'r afon, fel bod pob cam feddw a gymerai Huw yn glanio'n ddi-ffael ar le sych a diogel.

Neu be am y tro arall hwnnw, pan dynnodd Huw neb llai na'i gymydog yr Archddiacon Edmwnd Prys i'w ben? Dydd gŵyl ffair ym Maentwrog oedd hi, a Huw yn eistedd wrth ffenast agorad y dafarn pan gerddodd y Salmydd Càn heibio; hwnnw ar ei ffordd i'w eglwys gyfagos, siŵr o fod. Er mwyn cael tipyn o sbort efo'i gyd-lymeitwyr, fe wthiodd Huw ei ben allan drwy'r ffenast a gweiddi petha anllad ar ei gyfaill eglwysig a'i herio fo i ddod i mewn atyn nhw am beint. Mi fyddai'n well iddo fod wedi cau'i geg a brathu'i dafod, yn reit siŵr, oherwydd mae'n ymddangos bod gan yr Archddiacon hefyd ei gysylltiadau efo'r gelfyddyd ddu ac mi roddodd o felltith ar Huw Llwyd yn y fan a'r lle, trwy beri i ddau gorn hir dyfu allan o'i ben, fel na fedrai Huw druan dynnu ei hun i mewn yn ôl i'r stafall, at ei beint a'i ffrindia. Ac yno y buodd o, mae'n debyg, yn gyff gwawd i bawb, nes iddo fo weld yn dda i ymddiheuro i'r Archddiacon am ei ryfyg ac i Edmwnd Prys wedyn ddangos hynawsedd a thosturi dwyfol tuag ato fo.

Ond fe gafodd Huw, hefyd, ei ddial cyn nos. Wrth nesu am ei gartra yn y Tyddyn Du y noson honno ... sydd, gyda llaw, ond ryw filltir fer o Gynfal Fawr ... roedd yn rhaid i'r Archddiacon gerddad o dan gafn oedd yn cario dŵr i felin gyfagos; cafn a oedd yn colli mwy o ddŵr nag a gariai, yn ôl pob sôn. Fel roedd y Salmydd Càn yn camu o dan y cafn, pwy oedd yno'n aros yn y cysgodion, i gydio ynddo fo gerfydd ei war a'i ddal o o dan y diferion nes ei fod o'n wlyb at ei groen, ond llu o gythreuliaid y Fall – yr un criw ag a fu'n cadw traed Huw yn sych yng ngheunant y Gynfal, mwy na thebyg! Ac oedd, roedd gwas Huw Llwyd yn dyst i'r digwyddiad hwnnw hefyd, mae'n siŵr, ac yn fwy na pharod i rannu'r profiad efo'i fêts ar ôl hynny, dros beint!

Neu be am Huw Llwyd yn twyllo'r amaethwr hwnnw o'r Waun yn un o ffeiriau'r Llan? Gwerthu perchyll nobl iddo fo am arian da ond, gyntad ag y dychwelodd y ffarmwr i'w fro, dyma'r perchyll i gyd yn troi'n ddarnau o raffau gwellt diwerth. ... Dawn Gwydion yn fan'na, yn reit siŵr!

Mae sawl stori arall hefyd am Huw Llwyd yn defnyddio'i hudoliaeth er mantais iddo'i hun, hyd yn oed pan oedd o ond yn llanc ifanc! Megis y tro hwnnw pan gafodd siars gan ei dad i gadw'r brain allan o gae oedd newydd gael ei hadu. Ond doedd gan Huw fawr o awydd sefyllian yn fan'no drwy'r dydd, mae'n debyg, felly be wnâth o oedd hudo holl frain y Cwm i mewn i'r beudy a'u cloi nhw yn fan'no am y diwrnod.

Mae Pulpud Huw Llwyd yn atyniad poblogaidd hyd heddiw yng ngheunant Afon Cynfal ac mae hogia mwy mentrus na'i gilydd o bob cenhedlaeth, am wn i, wedi mentro i lawr yno i'w ddringo. Tipyn o gamp, o styried fod y Pulpud yn golofn o graig tua chwe llath o uchder llithrig yng nghanol yr afon, efo llwyfan yr un mor llithrig ar ei ben, a bod dŵr coch bob amser yn trochi o gwmpas ei droed. Ond, yn yr oes brin-ei-phapur a di-feiro honno, dyma lle bydda Huw yn dŵad i farddoni, ma'n debyg, gan fwmban odlau cymhleth wrth y coed o'i gwmpas, odlau oedd yn swnio'n debycach i swynion mewn iaith ddiarth, falla. Iaith na allai neb ond Satan ei hun ei dallt! Ac unwaith, oni welodd rhywun y dyn rhyfedd o Gynfal Fawr yn marchogaeth ei geffyl gwyn trwy ganol yr afon ac yn dringo'r pilar rhyfadd o graig? A rhannu, o fan'no, ei farddoniaeth ryfadd efo sŵn y dŵr? Ac onid oedd yn gwblw amlwg i'r sawl a'i gwelodd o nad adlais odlau oedd i'w glywed yn dod yn ôl o'r ceunant ond llais y Gŵr Drwg ei hun yn cynnal ymddiddan? ... Do, fe dyfodd y cwmwl tystion gyda'r blynyddoedd ac mi dyfodd nifer y credinwyr hefyd, nes bod pawb yn y diwedd yn gwbod o ble y câi gŵr Cynfal Fawr ei alluoedd rhyfedd - i siarad iaith estron, i wella clefyda, i weld y pell yn agos ac i bysgota a hela gyda'r fath lwyddiant.

A hyd yn oed yn yr oes wyddonol, dechnolegol hon, mae'n ymddangos bod y credinwyr efo ni o hyd! *'Huw Llwyd was a sorcerer who lived in the early 17th Century'*, meddai un awdur o Sais ar ei wefan. *'He was an eccentric seventeenth century local wizard,'* meddai un arall ar ei wefan ynta. O, wel! Rhaid bod y peth yn wir, felly!

Ond rhag ofn nad oes fawr o sail i storïau o'r fath, fe orffenna i ar nodyn haws i'w gredu, gobeithio. Dyma, mewn tri englyn ... ac efo'i dafod yn ei foch, mae'n siŵr gen i ... sut y trefnodd Huw Llwyd ei angladd ei hun ... sef, i gael ei wnio mewn blanced wen a'i ollwng wedyn i'r pridd –

Lliain gwyn a'm tyn o'm tŷ – â llinyn
Y lluniwch im wely,
A gwesgwch, yno i gysgu,
Fi'n fyddar i'r ddaear ddu.

Gwryd o liain gorwyn – y borau
Fydd barod i'm derbyn;
A gwrach daer, grych ei deurnyn
Ag ewin dew gwnia'n dynn.

Rhaid gorwedd ar waeledd wely – duoer
A daear o'm deutu.
Dan y cwrlid, tomlyd lu,
I ddiwedd bydredd lydnu.

Ond os oedd Huw Llwyd o Gynfal am wneud yn fach o'i gyfraniad ei hun ar yr hen ddaear ma, roedd y bardd Huw ab Ieuan ap Robert, ar y llaw arall, yn gweld petha'n wahanol iawn –

Gwae Gynfal i gyd gan gwynfan,- du ing,
Dôi nagrau'n rhy fuan,
Pan aeth, mae'n waethwaeth weithian,
Huw Llwyd ar elor i'r llan.

Pen campau doniau a dynnwyd – o'n tir,
Maentwrog ysbeiliwyd,
Ni chleddir ac ni chladdwyd
Fyth i'r llawr mo fath Huw Llwyd.

9. Englynion Marwnad i Huw Llwyd o Gynfal gan William Phylip, Mochras

Och gau ar gampau, och gwympto – Huw Llwyd,
A llawer sy'n cwyno;
Ym Maentwrog mae'n taro
Awen fêl mewn grafel gro.

Yn iach, glod, hebod, hybarch, - na nmiwsig,
Na mesur cywirbarch,
Na chofio cerdd, na chyfarch;

Huw Llwyd a roddwyd i'r arch.

Aeth Cymro dang lo, dyn glân, - cyfarwydd,
Dieithrwydd da wythran;
Addysg aeth, a'r ddysg weithian
A grym iaith dan y gro mân.

Man y bu ganu ac awenydd – lawn
Englynion a chywydd,
Glain oedd ef, golau'n ei ddydd,
A niwl aeth yn ôl ieithydd.

Aeth sant, ni'th welant, wrth lef – ei Brynwr,
Brenin yr Uchelnef,
At saint, pob gradd a'i addef,
Glân oedd, ac angylion nef.

10. Achau teulu'r Llwydiaid, Cynfal Fawr

(Ffynhonnell - GMLL)

Seisyllt, Arglwydd Ardudwy

|

Llywelyn

|

Gruffydd

|

Meredydd Goch

|

Adam

|

Deicws

|

Llywelyn [Huw Machno yn rhoi'r llinach o hyn i lawr]

|

Ifan

|

Rhys

[Cadarnhad Lewys Dwnn a Thos Prys Plasiolyn o'r genhedlaeth hon ymlaen]

|

Hywel

[Yn dal yn fyw c. 1592 yn ôl Bob Owen, Croesor]

|

Owen Rhys
c.1533 - 1623

Dafydd Llwyd = Catrin ferch Hywel (g. c. 1500 yn Glasgwm, Penmachno)

Owen Howel **Huw Llwyd = Merch Hendre'r Mur / Mur Castell** Rhodri Mab? Elin Gwen Merch?
 Llwyd (m. cyn 1623 Llwyd
 Physygywr) c1568–c1630 1573 - 1613
 (g. – ? /
 marw cyn 1623)

| | |
 | | |
 Pyrs Huw Hywel Dafydd |
 (ganed yr uchod i gyd yn Cynfal) /
 | CWESTIWN – A oes yma genhedlaeth goll?

[CWESTIWN – A oedd gan Pyrs fab o'r enw
 John Price (Price < ap Pyrs < ap Rhys) ac, os felly,
 ai dyma'r cefnder y bu Morgan Llwyd yn llythyru ag ef?]

?

?? = **Mari Llwyd (Mam Morgan Llwyd)** – Tystiolaeth Treth Aelwydydd 1662 bod Mary Llwyd yn dal yn fyw ac yn trigo yn Cynfal ar y pryd. Yn ôl gweithredoedd cynharaf Cynfal, y rhai sydd bellach ar goll (**gw. E. Lewis Evans Tud 171 'O Weithredoedd sydd yng nghadw yno'**) roedd hi'n dal yno hefyd yn 1672 pan ymwelodd Henry Maurice a'i briod â'r tŷ.

[CWESTIWN – *Be oedd perthynas Mari Llwyd i Huw Llwyd? Ai gwraig, merch ynteu ferch-yng-nghyfraith? Hynny yw, ai tad ynteu daid i Morgan oedd Huw Llwyd? Yn ôl y dyddiadau, roedd H.L.L. yn 51 oed pan anwyd Morgan. Mewn erthygl yn 'Y Cymro' Medi 27ain 1956 mae Bob Owen Croesor yn dweud bod gan Huw Llwyd ddwy ferch o'r enw Elizabeth a Dorothei. Ni wn pa ffynhonnell oedd ganddo ji'r wybodaeth yma ond os yw'n gywir yna roedd Huw Llwyd yn dad hefyd i Morgan Llwyd]*

| | | |
Morgan (= Anne) Mari Dorothei Elizabeth
 (1619-59)
 pr. c. 1641

[CWESTIYNAU ynglŷn â tharddiad ambell enw yn nheulu agosaf M. Ll.

1. *Mewn llythyr at ei fam (neu ei fam-yng-nghyfraith?) yn 1657 mae'n cyfeirio at enedigaeth Elizabeth, ei ferch iengaf, ac at y ffaith bod ei wraig wedi cael amser caled yn geni – 'Ond am eich merch, fy ngwraig annwyl, bu flin iawn arni y tro yma'.*
2. *Ceir llythyr arall ganddo at chwaer o'r enw Dorothei ac yn yr un llythyr ceir cyfeiriad arall at Elizabeth. O ble daeth yr enwau hyn? Dichon i Elizabeth gael ei henwi ar ôl y frenhines, ond o ble y daeth yr enw 'Dorothei'? Ai o ochor mam neu nain MLI? Ynteu efallai o linach Anne ei wraig?*
3. *Dylid nodi bod enw 'Morgan' ei hun hefyd yn un newydd yn y llinach! O ble y daw hwnnw? Ai dyna enw ei dad, efallai, os nad Huw Llwyd oedd hwnnw. Neu a yw'n dod o deulu ei wraig neu ei nain?*
4. *Ceir hefyd lythyrau Morgan Llwyd at ei 'gefnder' John Price [Ai John ap Pyrs/Rhys sef mab Pyrs ac wŷr felly i Owain Llwyd Ffisigwr, brawd hynaf Huw Llwyd?] – 'My deare love to my cozen yo' wife and all yo' children, to my unkle and longed for friends ...'*

Gw. disgynyddion Morgan ac Anne yn GMLL Tud. 314

[HPFfa - Ffestinfab yn honni bod Huw Llwyd wedi marw yn 1620, yn 80 oed ond go brin ei fod yn gywir gan y gwyddys iddo oroesi ei dad. Hwnnw'n marw yn 1623.

HPFfb - GJWilliams yn enwi rhieni HLI fel Owen(?) Llwyd, Tŷ Obry, Llanfrothen a Lowry ferch Ifan ab Gruffydd o Gynfal ond cywyddau Huw Machno 1630 yn profi'n wahanol.]

TCG - T. Ceiri Griffith yn cofnodi mai Ieuan Llwyd (Tŷ Obry, Llanfrothen) ap Rhys Wynn ap Ieuan ap Gruffydd (Hendre'r Mur) a Lowry vch Ifan ap Griffith (Cynfal) oedd rhieni gwraig Huw Llwyd.

Research mainly gathered by Geraint Vaughan Jones, Llan Ffestiniog. 2012

